Dechreuadau Creadigol
I blant yn y Cyfnod Sylfaen Cymreig

Tywynnu a Phelydru

Cornerstones
Cwricwlwm

Trosolwg o'r Prosiect

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar Wybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd ac yn galluogi plant i archwilio pethau sy'n pefrio, pelydru, tywynnu, adlewyrchu, disgleirio a fflachio. Gan adeiladu ar bwyntiau dechrau cychwynnol yn ystod y cam Ymgysylltu bydd eich arsylwadau yn eich galluogi i ddatblygu'r prosiect yn hyblyg gan gymryd i ystyriaeth syniadau a diddordebau eich plant. Yn ystod y cam Arloesi dylid annog y plant i feddwl yn greadigol gan gymhwyso eu profiadau, sgiliau a dealltwriaeth flaenorol i ddatrys dirgelwch yr 'Anrhegion Coll'.

Yn ddelfrydol cyflwynir y prosiect hwn o gwmpas y Nadolig.

Yn y prosiect hwn bydd plant yn dysgu am:

- Deunyddiau sy'n disgleirio a deunyddiau sy ddim
- Deunyddiau sy'n adlewyrchu golau a'r rheiny sy ddim
- Nodweddion deunyddiau gwneud a rhai naturiol yn enwedig y rheiny sy'n disgleirio, pelydru, fflachio, tywynnu ac adlewyrchu
- Gwneud cysgodion gan ddefnyddio ffynhonnell golau
- Diogelwch tân a rheolau i gadw'n ddiogel dan do ac yn yr awyr agored
- Gwahanol ffynonellau golau a sut mae golau yn bwysig mewn ystod o ddathliadau gwahanol gan gynnwys y Nadolig
- Traddodiadau'r Nadolig
- Gwneud marciau, tynnu lluniau ac ysgrifennu cynnar
- Yr iaith Gymraeg gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion ar draws ystod o brofiadau yn yr amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored.

Hawlfraint © 2013 Addysg Cornerstones Cyfyngedig